Estyn

# Anghenion Dysgu Ychwanegol mewn Colegau Addysg Bellach

Hydref 2024

# Tabl Cynnwys


Anghenion Dysgu Ychwanegol mewn Colegau Addysg Bellach ..... 2
Cyd-destun ..... 2
Beth oedd yn gweithio'n dda? ..... 4
Heriau cyffredinol ..... 5
Perthnasoedd ag awdurdodau lleol ..... 6
Dysgu proffesiynol ..... 8
Ymgorffori ADY yn systemau ehangach y coleg gan gynnwys sicrhau ansawdd ..... 9
Nodi anghenion dysgu ychwanegol a nodweddion bregus eraill ..... 9
Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE) ..... 10
Darpariaeth ddysgu ychwanegol ar gyfer dysgwyr y mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt ..... 10
Dysgwyr eraill ag ADY a ariennir gan y llywodraeth ..... 11
Cipluniau o arfer ddiddorol ac effeithiol ..... 11
Cwestiynau hunanfyfyrio ar gyfer colegau ..... 12

# Anghenion Dysgu Ychwanegol mewn Colegau Addysg Bellach

Adroddiad Mewnwelediadau – Medi 2024

Ein prif ganfyddiadau

- Crybwyllodd llawer o golegau fod ganddynt berthnasoedd gwell ag awdurdodau lleol o ran ADY
- Roedd gan lawer o golegau drefniadau pontio cryf neu well i ddysgwyr ag ADY
- At ei gilydd, roedd colegau'n gweld cynnydd yn eu llwyth gwaith yn gysylltiedig â chymorth i ddysgwyr ag ADY
- Mae amrywiant o ran systemau gweinyddol ADY ledled Cymru yn her o hyd

## Cyd-destun

Yn ystod tymhorau'r gwanwyn a'r haf 2024, ymunodd arolygydd Estyn â phrofiad o gefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ag ymweliadau arolygwyr cyswllt â phob coleg addysg bellach (AB) yng Nghymru. Yn ystod pob ymweliad, fe wnaethant gyfarfod â staff allweddol i drafod diwygio ADY[1] a sut roedd ei roi ar waith yn dod yn ei flaen ym mhob coleg. Llywiodd canfyddiadau'r ymweliadau hyn yr adroddiad hwn.

[1] Cyflwynwyd diwygio ADY pan basiwyd Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Rhagfyr 2017. Cafodd y ddeddfwriaeth Gydsyniad Brenhinol ym mis Ionawr 2018 a daeth yn Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ('y Ddeddf': Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2018). Roedd y Ddeddf yn darparu ar gyfer fframwaith statudol newydd i gefnogi plant a phobl ifanc ag ADY.

Nod y Ddeddf ADY a'r Rhaglen Trawsnewid ADY ehangach yw trawsnewid y systemau ar wahân ar gyfer anghenion addysgol arbennig (AAA) mewn ysgolion neu unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) ac anawsterau dysgu ac/neu anableddau mewn addysg bellach i greu system unedig i gefnogi dysgwyr o 0 i 25 oed sydd ag ADY.

At ei gilydd, crybwyllodd colegau eu bod ar gamau amrywiol o ran rhoi'r ddeddf ADY ar waith. Ar ben hynny, roedd pob coleg yn cefnogi carfanau gwahanol ag ystod amrywiol o anghenion dysgu ychwanegol. Er enghraifft, roedd y rhan fwyaf o golegau'n cefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol mwy cymhleth ar gyrsiau medrau byw'n annibynnol ac roedd gan leiafrif ohonynt berthynas gref sefydledig â choleg arbenigol annibynnol i wella darpariaeth mewn partneriaeth.

Nododd bron pob un o'r colegau yr ymwelom â nhw gynnydd yn nifer y dysgwyr ag ADY, yn ogystal ag anawsterau iechyd meddwl a gorbryder ers y pandemig. Yn ogystal, nododd ychydig o golegau gynnydd yn nifer y dysgwyr yn ymuno a oedd wedi cael eu haddysgu gartref yn flaenorol, felly mae gwybodaeth gyfyngedig ar gael am unrhyw anghenion dysgu ychwanegol.

Roedd llawer o'r colegau hyn yn cynnal nifer o wahanol fathau o ddarpariaeth yr oedd y diwygio ADY yn effeithio arnynt lle mae dysgwyr ar gofrestr y coleg. Roedd y rhain yn cynnwys rhaglenni cyflogadwyedd ieuenctid Twf Swyddi Cymru+ a phrentisiaethau iau[2]. Mewn ychydig o achosion, roedd darpariaeth ar gyfer dysgwyr mwy cymhleth, sydd wedi'u cofrestru fel colegau arbenigol annibynnol fel arfer, yn cael ei chyflwyno trwy goleg prif ffrwd i ddechrau, cyn i'r is-sefydliad gofrestru â Llywodraeth Cymru.

Cymhlethwyd y trefniadau hyn ymhellach gan ddaearyddiaeth Cymru. Roedd angen i bron pob un o'r colegau feithrin perthnasoedd a datblygu trefniadau rhannu gwybodaeth â mwy nag un awdurdod lleol. Datblygodd ychydig iawn ohonynt

[2] Cyrsiau a ariennir gan y llywodraeth yw'r rhain ar gyfer disgyblion o oedran ysgol statudol; er enghraifft, mae Prentisiaid Iau yn bobl ifanc sy'n cael trafferth aros yn amgylchedd yr ysgol ond sy'n dangos dawn ar gyfer dysgu galwedigaethol.

drefniadau rhannu gwybodaeth ag awdurdodau lleol yn Lloegr, hefyd. Crybwyllodd colegau amrywioldeb yn eu perthnasoedd ag ysgolion uwchradd lleol hefyd yn seiliedig ar b'un ai nhw oedd y prif ddarparwr addysg drydyddol yn yr ardal honno ai peidio.

Cwblhaom ein hadroddiad thematig cyntaf ar ddiwygio ADY ym mis Medi 2023, a oedd yn canolbwyntio ar roi Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg ar waith mewn ysgolion ac awdurdodau lleol. Er nad oedd ffocws yr adolygiad yn cynnwys lleoliadau ôl-16, gwnaethom un argymhelliad i awdurdodau lleol yn ymwneud ag addysg ôl-16, sef: datblygu a chyhoeddi eu strategaeth ar gyfer dysgwyr ôl-16 ag ADY.

Yn adroddiad thematig ADY 2023, canfuom mai megis dechrau cael eu datblygu y mae strategaethau awdurdodau lleol ar gyfer darpariaeth ADY ôl-16. Crybwyllodd yr awdurdodau lleol hynny a oedd wedi penodi swyddogion ôl-16 dynodedig eu bod yn meithrin partneriaethau strategol cryfach â darparwyr addysg bellach. Roedd gwybodaeth awdurdodau lleol am golegau arbenigol annibynnol yn llai cadarn ac, o ganlyniad, roedd eu hymgysylltiad â nhw yn fwy cyfyngedig. O ganlyniad, nid oedd awdurdodau lleol yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus am ystod lawn y ddarpariaeth dysgu ychwanegol ar draws y sectorau ôl-16.

# Beth oedd yn gweithio'n dda?

Yn gyffredinol, crybwyllodd llawer o golegau fod ganddynt berthnasoedd gwell ag awdurdodau lleol o ran anghenion dysgu ychwanegol. Roedd llawer ohonynt wedi gwella eu perthnasoedd ag ysgolion lleol a chydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol (CADYau) yn y lleoliadau hyn. O ganlyniad, roeddent yn cael eu gwahodd yn amlach i adolygiadau blynyddol darpar ddysgwyr cyn iddynt ymuno â'r coleg.

Roedd gan lawer o golegau drefniadau pontio cryf neu well i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. O ganlyniad, roedd dysgwyr wedi'u paratoi'n well i gyrraedd colegau. Roedd y trefniadau pontio hyn yn cynnwys digwyddiadau fel diwrnodau agored hygyrch neu nosweithiau tawel.

Dywed y rhan fwyaf o golegau bod ganddynt arlwy lles cadarn sydd hefyd yn cefnogi dysgwyr ag ADY yn ystod eu cyfnod yn y coleg. Er enghraifft, roeddent yn cynnig y gallu i fanteisio ar gwnsela, sesiynau galw heibio ar gyfer lles, atgyfeiriadau i wasanaethau arbenigol ac ystod o weithdai lles. Crybwyllodd lleiafrif ohonynt fod cysylltiadau cryf rhwng timau lles, diogelu ac ADY yn cefnogi dysgwyr i fod yn llwyddiannus yn eu hastudiaethau.

Roedd mwyafrif y colegau'n teimlo bod ganddynt ddealltwriaeth gref o'r anghenion y gallent ac na allent eu bodloni. Lle'r oedd colegau wedi dweud na wrth ddarpar ddysgwr, roedd hyn oherwydd pryderon iechyd a diogelwch fel arfer, er enghraifft yn ymwneud ag ymddygiad heriol a defnyddio ymyrraeth gorfforol, yn hytrach nag oherwydd anghenion dysgu ychwanegol penodol.

## Heriau cyffredinol

At ei gilydd, roedd colegau'n gweld cynnydd yn y llwyth gwaith yn gysylltiedig â chymorth i ddysgwyr ag ADY. Crybwyllodd mwyafrif y colegau fod cynnydd mewn cynlluniau datblygu unigol (CDUau) ac arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn[3] wedi cynyddu eu llwyth gwaith yn sylweddol. Nododd lleiafrif o golegau effaith negyddol ar lwyth gwaith a pherthnasoedd oherwydd disgwyliadau rhieni ynghylch darpariaeth ADY. Ar ben hynny, roedd mwyafrif y colegau wedi gweld cynnydd yn nifer y dysgwyr yr oedd angen cymorth arnynt i sefyll arholiadau. Roedd ychydig o golegau wedi newid strwythurau staffio i fodloni'r angen hwn. Roedd bron pob un o'r colegau'n

[3] Nod y dull hwn yw rhoi dysgwyr wrth wraidd popeth a wnawn, gan sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu haddysg.

rhagweld cynnydd pellach yn y llwyth gwaith yn gysylltiedig ag ADY dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Mae amrywiadau o ran systemau gweinyddol ADY ledled Cymru yn her o hyd. Er enghraifft, crybwyllodd mwyafrif y colegau fod systemau electronig i gynorthwyo i rannu gwybodaeth yn heriol neu heb eu datblygu'n ddigonol.

Roedd llawer o golegau'n datblygu system electronig gyffredin i reoli CDUau. Fodd bynnag, dim ond ychydig o golegau a oedd yn defnyddio'r un system â'u hawdurdod lleol lletyol. Yn rhy aml, roedd colegau'n parhau i gael copïau papur o ddogfennau allweddol ac yn treulio amser yn mewnbynnu'r rhain i'w systemau eu hunain â llaw. Crybwyllodd lleiafrif o golegau heriau oherwydd prosesau ADY gwahanol ar draws yr awdurdodau lleol gwahanol y maent yn gweithio â nhw. O ganlyniad, bu'n rhaid iddynt addasu eu prosesau a'u systemau eu hunain i gasglu gwybodaeth berthnasol.

Crybwyllodd tua hanner y colegau fod recriwtio staff â'r medrau priodol i gefnogi dysgwyr ag ADY yn her. Mewn rhai achosion, roedd yn anodd dod o hyd i staff a oedd yn siarad Cymraeg. Mewn achosion eraill, roedd recriwtio'n anodd gan fod rolau'n cael eu hariannu gan grant ac felly nid oeddent yn barhaol. Nododd colegau llai ei bod yn arbennig o heriol sicrhau bod ganddynt yr ystod gywir o staff arbenigol, yn enwedig lle mae ansicrwydd ynghylch p'un a fydd dysgwr yn ymuno â'r coleg ac angen cymorth penodol ai peidio. Crybwyllodd colegau mwy fod staffio'n creu heriau o ran sicrhau arlwy teg i ddysgwyr ag ADY dros ardaloedd daearyddol mawr.

# Perthnasoedd ag awdurdodau lleol

Soniodd llawer o golegau am welliannau yn eu perthynas ag awdurdodau lleol ers cyflwyno'r ddeddf ADY. Dywed ychydig iawn ohonynt eu bod wedi meithrin perthnasoedd cadarnhaol a oedd yn eu galluogi i gynllunio'n gydweithredol ar gyfer carfanau yn y dyfodol. Crybwyllodd tua hanner y colegau fod awdurdodau lleol yn darparu

gwasanaethau arbenigol i gefnogi dysgwyr, er enghraifft gwasanaethau nam ar y golwg neu athrawon arbenigol, er bod rhyw ddryswch ynghylch a ddylai'r cymorth hwn barhau wrth i ddysgwyr bontio o'r ysgol i'r coleg. Fodd bynnag, roedd lleiafrif o golegau'n teimlo nad oedd gan awdurdodau lleoli ddealltwriaeth gref o'r anghenion y gallai'r coleg eu bodloni.

Crybwyllodd mwyafrif y colegau eu bod wedi gwella eu perthnasoedd â CADYau mewn ysgolion lleol ac, o ganlyniad, eu bod yn mynychu adolygiadau blynyddol dysgwyr yn fwy cyn iddynt ymuno â'r coleg. Fodd bynnag, nid oedd yr arfer hon yn gyson ledled Cymru nac o fewn awdurdodau lleol hyd yn oed. Roedd hyn yn golygu, mewn ychydig o achosion, nad oedd colegau'n gallu gweld CDUau dysgwyr newydd cyn iddynt ymrestru yn y coleg, yn aml oherwydd camddealltwriaeth ynghylch rheoliadau diogelu data.

## Bodloni anghenion ystod ehangach o ddysgwyr

Roedd ychydig o golegau wedi datblygu cyrsiau newydd i fodloni ystod ehangach o anghenion. Yn nodweddiadol, roedd y rhain ar gyfer y dysgwyr hynny a oedd yn cael trafferth ymgysylltu ag addysg a mynychu, er enghraifft dysgwyr ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig neu orbryder.

Crybwyllodd ychydig o golegau eu bod wedi meithrin cysylltiadau ag awdurdodau lleol i fodloni anghenion meddygol neu therapiwtig cymhleth dysgwyr ag ADY ar gyrsiau medrau byw'n annibynnol. Er enghraifft, roedd awdurdodau lleol yn darparu'r gallu i fanteisio ar wasanaethau iaith a lleferydd i gefnogi dysgwyr ar gyrsiau medrau byw'n annibynnol. O ganlyniad, yn y rhanbarthau hyn, roedd rhai dysgwyr a allai fod wedi mynychu colegau arbenigol annibynnol gynt, mewn rhai achosion, wedi ymrestru yn eu coleg AB lleol.

## Cynlluniau datblygu unigol (CDUau)

Roedd amrywiad sylweddol yn nifer a chyfran y dysgwyr ar y gofrestr ym mhob coleg AB yn ystod blwyddyn academaidd 2023-24 â CDU. Yn gyffredinol, dywed colegau bod yr amrywioldeb hwn yn ymwneud yn bennaf â ph'un a yw dysgwyr yn cyrraedd y coleg â CDU ai peidio.

Crybwyllodd colegau y gallai dysgwyr gwahanol ag ADY tebyg gyrraedd y coleg â CDU neu beidio. Crybwyllwyd yr amrywiad hwn o fewn ac ar draws awdurdodau lleol gwahanol.

Dim ond ychydig o golegau a grybwyllodd eu bod wedi datblygu CDU ar gyfer dysgwr a gyrhaeddodd y coleg heb un ond eu bod yn teimlo bod ganddynt ADY, ac nid oedd pob arweinydd coleg yn gyson hyderus yn y prosesau i wneud hynny. Ar ben hynny, crybwyllodd tua hanner y colegau amrywioldeb o ran ansawdd CDUau i ddysgwyr newydd, nad ydynt yn adlewyrchu deilliannau ystyrlon ar gyfer y sector ôl-16 yn gyson. Er enghraifft, nid yw'r cysylltiad hwnnw â datblygu medrau yn cyd-fynd â'r cyrsiau y mae dysgwyr yn eu dilyn neu nad ydynt yn ystyried y gwahaniaeth o ran darpariaeth mewn coleg o gymharu ag ysgol.

## Dysgu proffesiynol

Nododd bron pob un o'r colegau ffocws cryf ar ddysgu proffesiynol i gynorthwyo staff i fodloni anghenion pob dysgwr orau. Teimlai arweinwyr y bu buddsoddiad sylweddol mewn hyfforddiant coleg cyfan ar roi diwygiadau ADY ar waith, yn ogystal ag mewn perthynas ag anghenion penodol. Er enghraifft, crybwyllodd colegau eu bod yn darparu hyfforddiant o ragarweiniad i lefel meistr mewn ystod o feysydd gan gynnwys dyslecsia, awtistiaeth, ADHD (anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd), arfer gynhwysol, cymorth lleferydd a chyfathrebu ac ymddygiad cadarnhaol.

Yn yr achosion gorau, dywedodd arweinwyr eu bod wedi gwerthuso effaith y buddsoddiad sylweddol hwn, er enghraifft trwy deithiau dysgu neu arolygon dysgwyr ar gyfer y dysgwyr hynny ag ADY. Roedd ychydig o golegau'n rhagweithiol o ran nodi'r anghenion gwahanol ym mhob adran a chynllunio hyfforddiant perthnasol er mwyn ymateb i hyn. Fodd bynnag, yn rhy aml, nid oedd colegau'n gwerthuso effaith hyfforddiant nac yn sicrhau'n gyson fod staff wedi ymgysylltu'n ystyrlon â'r cyfleoedd dysgu proffesiynol a oedd ar gael iddynt.

## Ymgorffori ADY yn systemau ehangach y coleg gan gynnwys sicrhau ansawdd

Mae bron pob un o'r colegau'n crybwyll eu bod wedi diwygio polisïau craidd er mwyn sicrhau eu bod yn ystyried anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr, er enghraifft mewn codau ymddygiad a pholisïau presenoldeb.

Fodd bynnag, amlygodd ein hymweliadau fod y gwerthusiad o ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn gysylltiedig â dysgwyr ag ADY yn rhy amrywiol ledled Cymru. Lle'r oedd hyn yn fwyaf effeithiol, roedd arweinwyr yn gwerthuso'r cymorth i ddysgwyr ag ADY yn ystod teithiau dysgu, yn ystyried eu hadborth penodol trwy arolygon ac yn defnyddio data perthnasol, er enghraifft ar gyflawniad a chwblhau cyrsiau.

## Nodi anghenion dysgu ychwanegol a nodweddion bregus eraill

Roedd y rhan fwyaf o golegau'n defnyddio gwybodaeth derbyniadau i nodi'r dysgwyr mwyaf bregus, y rhai a oedd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET) neu'r rhai sy'n nodi bod ganddynt ADY eu hunain ar unrhyw adeg. Fodd bynnag, roedd colegau'n dibynnu at ddysgwyr, awdurdodau lleol neu ysgolion lleol i ddarparu'r wybodaeth hon, nad oedd yn digwydd bob tro.

Oherwydd cydweithio agos ag awdurdodau lleol, roedd lleiafrif o golegau'n gallu nodi'r dysgwyr hynny y nodwyd bod ganddynt AAA yn flaenorol, ond nad oedd ganddynt CDU ar hyn o bryd a monitro eu llwyddiant.

## Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE)

At ei gilydd, rhoddodd colegau'r un cymorth ADY i'r dysgwyr hyn â dysgwyr eraill lle nodwyd ADY. Crybwyllodd lleiafrif o golegau nad oeddent wedi cael unrhyw ddysgwyr SSIE ag anghenion dysgu ychwanegol hyd yn hyn. Dywedodd colegau ei bod yn aml yn heriol nodi ADY mewn dysgwyr SSIE gan fod offer diagnostig ar gael yn Saesneg yn unig.

## Darpariaeth ddysgu ychwanegol ar gyfer dysgwyr y mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt

Roedd darparu cymorth dysgu ychwanegol trwy gyfrwng y Gymraeg yn rhy amrywiol ledled Cymru. Crybwyllodd ychydig o golegau nad oes unrhyw ddysgwyr wedi gofyn am gymorth trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn gyffredinol, crybwyllodd ychydig o golegau fod cymorth Cymraeg ar gael i ddysgwyr ag ADY yn ogystal ag adnoddau dwyieithog. Fodd bynnag, ledled Cymru, mynegodd colegau nad oedd offer diagnostig ar gyfer ADY ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg yn aml a bod penodi staff â medrau Cymraeg addas yn her.

# Dysgwyr eraill ag ADY a ariennir gan y llywodraeth

Fel arfer, mae statws cyfreithiol y dysgwyr hyn yn amrywio rhwng colegau oherwydd gwahaniaethau cofrestru ac, o ganlyniad, mae eu cymorth ar gyfer ADY yn amrywio ledled Cymru. Yn nodweddiadol, mae'r rhain yn cynnwys rhaglenni cyflogadwyedd ieuenctid Twf Swyddi Cymru+ a phrentisiaethau iau. Mewn ychydig o golegau, mae'r dysgwyr hyn yn elwa ar yr un cymorth ADY â'u cyfoedion sy'n astudio ar gyrsiau addysg bellach. Fodd bynnag, mewn colegau eraill, nid yw'r dysgwyr hyn wedi'u hymrestru'n swyddogol â'r coleg ac felly nid oes ganddynt hawl gyfreithiol i'r un cymorth â dysgwyr AB. Lle mae'r cymorth hwn yn fwyaf effeithiol, mae gan y coleg weledigaeth a set o werthoedd clir i sicrhau bod pob dysgwr yn elwa ar allu manteisio'n gyfartal ar gymorth ychwanegol yn ôl yr angen.

# Cipluniau o arfer ddiddorol ac effeithiol

Mae'r enghreifftiau canlynol yn tynnu sylw at arfer effeithiol sy'n dod i'r amlwg yn ymwneud â cholegau yn datblygu agweddau ar ddarpariaeth ADY.

**Pontio:** Mae un coleg wedi cyflwyno fforwm misol i awdurdodau lleol, Gyrfa Cymru a phartneriaid perthnasol eraill gyfarfod â rhanddeiliaid allanol a staff y coleg i drafod llwybrau dilyniant posibl ar gyfer dysgwyr unigol cyn iddynt ymrestru â'r coleg, er mwyn sicrhau bod darpariaeth ADY y coleg yn glir.

**Pontio:** Mae un coleg wedi datblygu profiadau realiti rhithwir i ddysgwyr er mwyn iddynt allu gweld y coleg yn rhithwir, mewn ffordd dawel fel rhan o bontio i'r coleg.

**Olrhain darpariaeth ddysgu ychwanegol:** Mae un coleg wedi datblygu system ar-lein i olrhain yr holl gymorth a gwariant ar ddarpariaeth ddysgu ychwanegol. Mae hyn yn galluogi arweinwyr i olrhain gwariant a gwerthuso anghenion y dyfodol, hefyd.

**SSIE:** Mae un coleg yn defnyddio staff medrau byw'n annibynnol sydd ag arbenigedd mewn ADY i gynorthwyo i asesu dysgwyr SSIE sydd ag ADY ac yn datblygu CDU ystyrlon.

**Cefnogi dysgwyr ar gyrsiau eraill a ariennir gan Lywodraeth Cymru:** Mae un arweinydd coleg ar gyfer y maes hwn yn cyfarfod â'r ysgol, rhieni a darpar ddysgwyr i gasglu gwybodaeth. Gwneir hyn trwy dri chyfarfod cyn i'r dysgwr hwnnw ymuno â'r cwrs. Yna, bydd panel recriwtio yn adolygu'r unigolyn a sut mae'n gweddu i ddynameg y grŵp. Mae aseswyr seiliedig ar waith wedi'u hyfforddi ar gynorthwyo ag anghenion fel awtistiaeth ac ymddygiad er mwyn sicrhau y gellir gwneud addasiadau wrth asesu. Caiff ymrestru cynnar ei gynnig i Brentisiaid Iau i ddod i'r arfer â'r coleg. Mae gan raglenni Prentisiaid Iau anogwr dysgu sy'n eu dilyn o amgylch y coleg, yn eu goruchwylio ar y safle ac yn mynychu pob gwers.

# Cwestiynau hunanfyfyrio ar gyfer colegau

1. Sut ydych chi'n sicrhau perthynas gynhyrchiol ag awdurdodau lleol i gefnogi dysgwyr cyfredol a chynllunio ar gyfer carfanau'r dyfodol?
2. Sut ydych chi'n gwerthuso ansawdd yr addysgu a'r profiadau dysgu i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol ar draws y ddarpariaeth gyfan?
3. Sut ydych chi'n cynllunio ar gyfer dysgu proffesiynol o ran ADY? Sut ydych chi'n gwerthuso'r effaith y mae hyn yn ei chael ar ddysgwyr?
4. A yw pob dysgwr yn gallu manteisio'n gyfartal ar gymorth ADY? A yw hyn yn cynnwys y dysgwyr hynny ar gofrestr y coleg sydd ar ddarpariaeth arall a ariennir gan y llywodraeth, dysgwyr SSIE neu ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf?
5. Sut ydych chi'n sicrhau bod gan ddysgwyr newydd CDUau sy'n berthnasol i'w cwrs astudio a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol?